



# Dillad Addasedig ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol





**<u>Dillad Cyfeillgar i'r Synhwyrau Newydd gan</u>**

Mae cydweithrediad newydd anhygoel wedi'i sefydlu gyda Thomas & Friends™ a'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth.

Ar y dillad mae Thomas, Percy, a James ac maent ar gael yr holl ffordd hyd at 15-16 oed. Maent yn berffaith ar gyfer pawb sy'n dwlu ar y locomotif annwyl. Maent hefyd wedi'u gwneud â chotwm hynod feddal o ffynonellau cynaliadwy. Mae gennym ni grysau-t llac, crysau chwys, a thracwisgoedd, ac maen nhw i gyd wedi'u cynllunio er mwyn gwneud gwisgo'n rhwydd.

Yn ogystal â'r dewis anhygoel hwn, caiff 20% gost pob dilledyn ei roi i'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, felly sicrhewch bod eich rhai bach ar y trac iawn.

[Dillad Sy'n Gyfeillgar i'r Synhwyrau - Character.com]



## Marks & Spencer Kids Easy Dressing






Mae ein dillad Easy Dressing sydd wedi'u cynllunio'n arbennig yn cynnwys dillad sy'n addas ar gyfer plant sydd â dysplasia'r clun, dillad tiwb bwydo a dillad babi gyda sip arnynt.

Mae'r dillad hyn, sydd â poppers wedi'u gosod mewn llefydd defnyddiol ac sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau meddal iawn, yn canolbwyntio ar wneud y plentyn yn gyfforddus. Gellir dod o hyd i feintiau sy'n cychwyn gydag oedran newydd-anedig, hyd at 16 mlynedd.

Mae patrymau tlws ac amrywiaeth o liwiau ar gael, yn ogystal ag aml-becynnau defnyddiol hefyd.



**Wel mae Marks & Spencer's wedi creu esgidiau gwych fel rhan o'u dewis o ddillad addasiedig!**

Mae'r esgidiau chwaraeon pen uchel hyn yn cynnwys criau yn ogystal â sip er mwyn ei gwneud yn hawdd i'w rhoi ymlaen a'u tynnu i ffwrdd.  Maen nhw'n dod mewn mwy nag un lliw!

[Adaptive Clothing for Kids | Assisted Dressing | M&S (marksandspencer.com)]







**Asda - Easy On Easy Wear Adaptive Clothing**

Edrychwch ar ein gwisg ysgol plant *easy on easy wear*, gyda dillad addasol ar gyfer bechgyn a merched.
Wedi'i dylunio'n arbennig ar gyfer plant ag anghenion penodol neu plant sy’n synhwyraidd-sensitif, mae ein gwisg ysgol addasol yn helpu i gefnogi plant i wisgo'n annibynnol ac gwneud yn siŵr eu bod mor gyfforddus â phosibl yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae’n cynnwys gwisg ysgol ag edafedd meddal, semau tenau a chynlluniau di-label. Gallwch fod yn dawel eich meddwl bod ein dillad addasol i blant yn edrych yr un fath â gweddill ein casgliad gwisg ysgol. Yn hytrach na botymau anodd i’w trin, mae dulliau hawdd i’w cau wedi’u defnyddio, ond bydd botymau ffug wedi’u gosod er mwyn gwneud yn siŵr bod y dillad yn edrych fel pob dilledyn ysgol arall.

Mae gennym hefyd drowsus ysgol bechgyn a throwsus ysgol merched gyda gwasg elastig, sy'n eu gwneud yn hawdd i'w tynnu ymlaen ac i ffwrdd ac yn wych o ran cymorth i wisgo. I gael atebion eraill i rwystrau’n ymwneud â ffit, rhowch gynnig ar ein gwisg ysgol plus fit ar gyfer bechgyn a gwisg ysgol plus fit ar gyfer merched.

**Mae gan Asda wisg haf hyfryd mewn stoc yn barod ar gyfer tymor yr haf!**

Adaptive Clothing For Kids | Adaptive School Uniform | George at ASDA

# Asda - Easy On Easy Wear Adaptive Clothing







## **Able 2 Wear**

Mae Able2 Wear yn falch o gyflwyno'r dewis llachar a lliwgar hwn o ddillad dal dŵr ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn o 4 oed i fyny. Mae ein *cosies* yn hynod hawdd i'w ffitio dros y defnyddiwr, maent yn gynnes ac yn dal dŵr ac mae'r cynlluniau'n drawiadol.

[Children's Wheelchair Waterproofs | Able2 Wear]





**Gwisgoedd**







**Sut mae'n addasol?**

- Gellir agor y defnydd yn rhwydd ac heb dynnu sylw ger y stumog
- Gellir agor cefn y wisg yn llawn a gellir ei chau gyda felcro a'i chlymu o gwmpas y canol er mwyn gallu ei rhoi ymlaen pan mae'r plentyn yn eistedd.
- Trowsus/sgert gyda phrint digidol ar y blaen a'r cefn sy'n agor gyda felcro yn y cefn gan olygu y gellir eu rhoi ymlaen pan mae'r plentyn yn eistedd.

I weld yr eitemau hyn ewch i
[Search Results for "Adaptive" – Get Ready Comics]






**Bundle Bean**

Yn dilyn llawer o geisiadau, datblygodd Bundle Bean orchuddion ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn ac rydym bellach yn falch iawn o fod y prif werthwyr o fewn y farchnad sector anabledd.

Mae plant ac oedolion fel ei gilydd yn caru ein gorchuddion clyd a bellach mae amrywiaeth o ponchos ac ategolion sydd wedi'u dylunio'n ofalus ar gael hefyd. Yn ddiweddar, fe wnaethom ychwanegu Bean Extreme - datrysiad dwy ran ar gyfer tywydd hynod o oer.

https://bundlebean.com/collections/wheelchair-range



Mae ein eitemau Free Wheelers wedi'u cynllunio ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn o 4 oed i fyny - ac mae gennym ystod o eitemau gwych i blant ac oedolion.

Mae ein *cosies* yn hynod hawdd i'w ffitio dros y defnyddiwr, yn gynnes ac yn dal dŵr ac ar gael yn ein dyluniadau trawiadol.

Mae'r ystod Bean Extreme ar gyfer diwrnodau hynod o oer. Peidiwch ag anghofio edrych ar ein ponchos ac ategolion teithio defnyddiol eraill.

**Bundle Bean**



## DILLAD AC ATEGOLION ANGHENION ARBENNIG I BLANT

Mae SpecialKids.Company yn cynnig amrywiaeth o ddillad ac ategolion addasol wedi'u cynllunio ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Rydym yn frwd dros greu dillad synhwyraidd ac ategolion megis gorchuddion cadair olwyn a *chewies*, a all wella sgiliau cymdeithasol eich plentyn trwy fynd i'r afael â'u hanghenion unigryw, a heb aberthu eu steil personol a'u hunan fynegiant. Rydym yn cynnig ystod eang o feintiau, mae ein *bodysuits* arbenigol, bibiau, festiau, dillad anymataliaeth a dillad eraill yn addas ar gyfer plant 2 i 16 oed.

Rydym yn deall bod angen dillad ac ategolion arbenigol ar blant sydd ag anghenion arbennig sy'n rhoi chymorth ychwanegol. Mae ein dillad ac ategolion wedi'u gwneud o ddeunyddiau sy'n gyfforddus ac wedi'u cynllunio'n arbennig er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer plant sydd ag awtistiaeth, syndrom Down a llawer o ofynion arbenigol eraill. Gallwch siopa am ein dillad addasol sy'n cynnwys ein dillad mynediad tiwb poblogaidd, bibiau anghenion arbennig, sanau heb semau yn ogystal â'n hategolion gan gynnwys amrywiaeth o gymhorthion megis *chewies*, gorchuddion cadair olwyn, dillad gwely a llawer mwy.

[Adaptive Clothing for Children | Special Kids - SpecialKids.Company]





**Fledglings**

Mae Fledglings yn rhan o'r elusen genedlaethol, Contact.

Rydym yn siop ddi-elw sy'n helpu plant ac oedolion sydd ag anghenion ychwanegol trwy gyflenwi cynhyrchion ac offer sy'n helpu gyda heriau dydd i ddydd. Rydym yn darparu amgylchedd hawdd y gellir ymddiried ynddi er mwyn dod o hyd i'r dewisiadau cywir a chaniatáu i bobl gysylltu a rhannu eu profiadau.

Sefydlwyd Fledglings ym 1998 gan Ruth Lingard a oedd yn angerddol dros helpu rhieni a gofalwyr plant ag anghenion arbennig i ddod o hyd i atebion syml i'r heriau dydd i ddydd y maent yn eu hwynebu. Fel athrawes anghenion arbennig a gweithiwr cymdeithasol, roedd gan Ruth gyfoeth o brofiad mewn helpu teuluoedd a phlant, a rhoddodd Fledglings gyfle iddi gyrraedd mwy o bobl mewn angen.

Ers mis Chwefror 2019, mae Fledglings wedi ymuno â Contact, yr elusen ar gyfer teuluoedd sydd â phlant anabl. Fel Fledglings, sefydlwyd Contact gan deuluoedd plant anabl, a oedd yn cydnabod, hyd yn oed os oedd amodau eu plentyn yn wahanol, eu bod yn rhannu profiad cyffredin - o fod yn deulu gyda phlentyn anabl.
Roeddent yn deall pa mor bwysig yw cefnogi ei gilydd.

Toys, clothing & sensory products for disabled children | Fledglings



Accessible Clear Panel Face Covering - Dinosaur



Splash About Boys Incontinence Jammers Swim Shorts - Navy/Jade

